# CYNGOR CYMUNED BUAN

**Cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 14 Ionawr 2022 gafodd ei gynnal drwy g yfrwng sustem ZOOM**

**Presennol:**

**Cynghorwyr**:
Hughie Williams – Cadeirydd
Catherine Hughes
Tesni Wyn Jones
Dafydd Ll Williams
Einir Lewis
Nerys Williams
Anwen Davies – Cynghorydd Sirol
Angela Moore - Clerc

1. **Ymddiheuriadau** – Rhys Jones, Nia Jones, Gareth Roberts, Wyn Davies a Philip Roberts.

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**
Cadarnhawyd cofnodion 16 Rhagfyr 2021 yn gywir gan y Cynghorydd Catherine Hughes ac eilwyd gan y Cynghorydd Hughie Williams.

**3. Ymatebion i ohebiaeth**
Derbyniwyd gohebiaeth gan Cyngor Cymuned Llanbedrog yn diolch am gefnogaeth y cyngor.

**4. <u>Materion Ariannol</u>**
Derbyniwyd cysoniad y banc am y cyfnod 3 Rhagfyr 2021 i 2 Ionawr 2022 yn gywir yn y swm o £1432.56. Mae un siec i Gyllid a Thollau EM heb fynd drwy'r banc mis yma. Postiwyd y siec felly cadw golwg ei bod yn mynd drwy'r banc yn ystod y mis yma.

Bydd y sieciau isod yn cael eu harwyddo gan ddau Gynghorydd yn ystod y dyddiau nesaf.

| | | |
|---|---|---|
| Bacstal | £132.00 | Siec rhif 200651 |
| Cyllid a Thollau EM | £28.00 | Siec Rhif 200652 |
| Angela Moore | £111.79 | Siec Rhif 200653 |
| Bleddyn Evans | £235.00 | Siec Rhif 200654 |

**5. Materion Cynllunio**
Doedd dim materion cynllunio i'w trafod.

**6. Datgan Diddordeb**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**7. <u>Materion er Gwybodaeth</u>**

Mae pob dogfen yn cael ei yrru yn electronig i'r Cynghorwyr drwy e bost.

9. **<u>Unrhyw fater arall</u>**

**Defibrillators**

Tydi'r defibrillators dal heb gael eu cofrestru. Soniwyd yn y cyfarfod diwethaf bod Tomos Hughes wedi bod yn siarad efo y Cynghorydd Hughie Williams ac mae ef wedi cytuno i roi defibrillator newydd yn Twnti'r Afon a chofrestru'r defibrillators i gyd. Nid oed padiau yn efo'r defibrillator ym Moduan ac felly mae angen archebu rhai newydd am £36 + TAW. Mae'n rhaid cael y rhif ar y padiau er mwyn cofrestru ac felly unwaith y bydd rhain wedi eu derbyn bydd Tomos Hughes yn gallu gwneud hyn.

**Ffyrdd**

Adroddodd y Cynghorydd Anwen Davies am y gwaith ffordd o Ceidio i Bronallt. Mae pawb yn hapus iawn efo'r gwaith y tro yma.

Adroddodd hefyd bod dwr yn croni ar lôn o Nanhoron i Penygongl a tro Pantglas. Gofynnodd y Cynghorydd Hughie Williams i'r Clerc ysgrifennu at Adran Priffydd y Cyngor ynglyn a hyn ac hefyd yr anfodlonrwydd i'r baw ar ôl i tractorau sydd yn defnyddio'r hewylydd i gludo pridd

Y Cynghorydd Catherine Hughes wedi holi pryd mae llnau lonydd gan bod mwd a brigau ar y ffyrdd ar ôl i foduron taro cloddiau a torri brigau oedd yn beryg ar ôl y gwyntoedd diweddar . Y Cynghorydd Anwen Davies yn adrodd mae cyfrifoldeb y contractwyr ydi hyn i fod a nad oes gan Cyngor Gwynedd orfodaeth i llnau ac eu bod yn brin o staff i wnued y gwaith. byddai cais yn cymeryd wythnosau cyn cael ei wneud. Mae Cyngor Gwynedd wedi llogi "sweeper", ac mae Anwen Davies am roi restr o'r ffyrdd sydd angen eu llnau i'r Adran Priffyrdd.

Daeth y cyfarfod i ben am 08:00 y.h.